

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg Ragfyr 2017

Presennol Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Terry Bullock, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Siân Godbert, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

.

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13eg Dachwedd 2017.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.2] Adnewyddu Biniau Cwn

Deallwyd gan y Cyng Elisabeth Roberts nad oedd y Cyngor Sir yn barod i ail ystyried y gost o £873.17 am adnewyddu dau o finiau cwn yng Ngae Llan. Penderfynwyd felly i dynnu sylw'r wasg i'r mater.

[1.3] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Nodwyd bod cynnig o dri mynediad i briffordd yr A5 o dan sylw gan Asiantaeth Briffyrdd Gogledd Cymru.

[1.4] Manholes gyferbyn a Three Gables a Cunninghams.

Dywedodd y clerch bod y mater yn cael sylw.

[1.5] Ffordd yn Arwain i fyny Heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau

Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y brif Agenda

[1.6] Materion Cynllunio

Gosod ffon gyhoeddus a peiriant ATM cyfunol. Tir ger Maes Parcio Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.7] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Tachwedd 2017

[b] Y Rheadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Tachwedd 2017.

[1.8] Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mrs Gladys Harrison ynglŷn â materion yn ymwneud a cherddwyr /traffig yn y ddau leoliad uchod. Nodwyd bod Y Cyng Elisabeth Roberts yn ceisio cyfarfod gyda Dafydd Ellis Thomas AC I drafod y mater. Y clerc i anfon gair at Mrs Harrison fod y Cyngor yn rhannu ei phryderon. Penderfynwyd trafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

[1.9] Nadolig Betws-y-Coed

Penderfynwyd anfon llythyr o longyfarch i aelodau Pwyllgor Nadolig Betws-y-Coed yn dilyn penwythnos lwyddiannus a drefnwyd ganddynt ar y 1/2/3ydd Ragfyr 2017. Y clerc hefyd i gynnwys y bydd y Cyngor Cymuned yn awyddus i gwrdd gydag aelodau'r pwyllgor yn hwyrach yn flwyddyn i drafod materion o fudd i'r digwyddiad yn 2018.

[2] Adolygiad Arwyddion Twristiaeth/Dyddiad Cau 19eg Ionawr 2018.

Nodwyd bod Gareth Wynne a Nick Corney wedi cytuno i gysylltu ynglŷn â'r mater.

[2.1] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019

Eglurodd Gwawr Jones bod Pwyllgor yr Eisteddfod wedi gosod targed o £10,000 i gael ei godi yn y gymuned a bod angen gwneud trefniadau sut i fwrw'n mlaen. Penderfynwyd trafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.

[2.2] Cyfeillion Eglwys Saint Mihangel.

Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth Jim a Lilian Boughton yn diolch am gyfraniad y Cyngor tuag at yr Ŵyl Flodau a bod casgliad o £543.03 wedi ei wneud. Nodwyd y bydd y gwasanaeth carolau yng ngholau canwyll dydd Sadwrn 30ain Ragfyr am 6.00 y.h.

Cadeirydd_____